

UNIT(e) 2017

GWAHODDIAD I GYFLWYNO SYNIADAU

UNIT(e). Bob blwyddyn, rydyn ni'n gwednewid g39 yn ofod cynhyrchu, ymchwil, trafodaethau beirniadol, dangos ffilmiau, digwyddiadau cymdeithasol, darlithoedd a llawer mwy. Yn seiliedig ar batrwm ysgolion celf ac ysgolion haf annibynnol, bydd yr oriel yn troi'n fwrlwm o artistiaid amrywiol. Unwaith yr wythnos, byddwn ni'n gwahodd aelodau'r cyhoedd i weld sut mae gwaith yr artistiaid yn datblygu, cael cip y tu ôl i'r llenni a blas ar weithgarwch stiwdio sydd fel arfer yn ddieithr iddynt. Hefyd, mae gennym raglen amrywiol a chyfoethog o ymwelwyr a churaduron gwadd sy'n cyflwyno sgysiau, gweithdai a sesiynau un i un â deiliaid y stiwdio. Penllanw'r tymor fydd digwyddiad stiwdio agored.

Mae UNIT(e) wedi mynd o nerth i nerth o fewn ein rhaglen dros y tair blynedd diwethaf. Bydd rhaglen UNIT(e) 2017 yn creu cyswllt unigryw â thîm arolygu Cymru yn Fenis, cyfranwyr rhyngwladol a phreswylfeydd cyhoeddus.

Eleni, mae UNIT(e) yn para ddwywaith yn hwy na'r blynyddoedd blaenorol, a bydd ddwywaith yn gynhesach gobeithio dros fisoedd yr haf, rhwng **21 Ebrill** a **9 Medi**.

Rydyn ni'n gwahodd artistiaid sy'n dymuno cymryd rhan yn UNIT(e) 2017 i gyflwyno cais. Gall artistiaid ar unrhyw gam yn eu gyrfa wneud cais. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan raddedigion newydd, artistiaid sefydledig ac unrhyw un yn y canol. Rydyn ni'n chwilio am geisiadau sy'n agored ac yn archwiliadol, syniadau ymchwil neu syniadau stiwdio arbrol. Rydyn ni'n chwilio am geisiadau a fydd yn gwneud defnydd o ddeialogau beirniadol a chymorth gan gymuned y stiwdio. Rydyn ni'n chwilio am brosiectau sy'n dymuno cyfrannu at ddeialogau beirniadol mewn ffyrdd diddorol. Rydyn ni'n chwilio am geisiadau gan artistiaid sydd ar fin mynd i gyfeiriad newydd neu'n dechrau ar gywaith newydd.

Mae UNIT(e) 2017 yn para tipyn hwy na fersiynau blaenorol nag arfer. Hoffem i'r rhan fwyaf o'r artistiaid a gaiff eu dewis gymryd rhan yn y rhaglen o'r dechrau i'r diwedd, ac rydyn ni'n deall y gall hyn olygu gweithio o amgylch ymrwymadau eraill. Byddwn yn derbyn ceisiadau am gyfnodau byrrach, yn enwedig gan artistiaid o'r tu allan i Gaerdydd. Yn eich cais, rhowch wybod a ydych chi angen prosiect byrrach. Disgwylwn i bob prosiect bara am fis o leiaf, er mwyn integreiddio â chymuned y stiwdio.

Gall deiliaid stiwdio UNIT(e) ddisgwyl y canlynol:

- Croeso cynnes a chinio cymdeithasol i gychwyn
- Gofod stiwdio penodol ar gyfer gwneud ymchwil, datblygu syniadau, a chynhyrchu gwaith newydd.
- Cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar clyweledol.
- Cyfle i gyflwyno a thrafod syniadau mewn awyrgylch cyfeillgar ond beirniadol.
- Cyfarpar ac offer adeiladu.
- Rhaglen datblygu proffesiynol gan gynnwys sgysiau, gweithdai a sesiynau un i un dan law'r artist.
- Rhwydwaith o gyfoedion a chyn-fyfyrwyr UNIT(e).
- Cysylltiad rheolaidd â staff g39.
- Lle i brofi syniadau, cynnal perfformiadau, dangos ffilmiau neu ddigwyddiadau eraill.

Ydw i'n gymwys?

- Mae'r cyfle hwn ar agor i artistiaid ar unrhyw gam yn eu gyrfa.
- Mae 8 lle wedi'u neilltuo ar gyfer artistiaid o Gymru, sy'n byw yng Nghymru neu â chysylltiad cryf â Chymru

- Mae 4 lle ar gael i rai o tu allan i Gymru.
- Wrth ddewis a dethol, byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth i artistiaid nad ydynt wedi manteisio ar gyfle UNIT(e) cyn hyn.

Sut i wneud cais

Cyflwynwch y canlynol:

- Crynodeb o sut fyddwch chi'n defnyddio'r cyfle stiwdio i ddatblygu gwaith newydd, ymchwilio i syniadau newydd, neu gymryd cyfeiriad newydd (hyd at 330 gair). Ysgrifennwch frawddegau clir a chryno. Gofalwch ei fod yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall.
- Datganiad byr yr artist (hyd at 150 gair). Sicrhewch fod hwn yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall hefyd. Ni fydd yn cynnwys eich holl brosiect - yn hytrach, rhowch flas i ni o'ch prosesau, eich deunyddiau cyffredin a'ch diddordebau craidd. Canolbwyntiwch ar eich gwaith diweddaraf.
- CV diweddaraf. Os mai newydd raddio ydych chi, peidiwch â phoeni os nad ydych chi wedi cael tomen o gyfleoedd arddangos eto. CV yw'r rhan lleiaf pwysig o'r cais.
- Enghreifftiau o'ch gwaith a all gynnwys unrhyw un o'r canlynol:
 - 10 delwedd (dim mwy na 2MB y ddelwedd), NEU
 - Clipiau byrion o waith ffilm neu waith sain (dim mwy na 5 munud i gyd) NEU
 - Darnau byrion o waith ysgrifenedig (hyd at 750 o eiriau)Cofiwch gynnwys teitlau, cyfrwng a blwyddyn cynhyrchu pob darn gwaith. Dim ond ni fydd yn gweld y deunyddiau hyn. Mae croeso i chi anfon dolenni cyswllt i wefannau / safleoedd lletya fideos hefyd.

E-bostiwch eich cais i curator@g39.org.

Gallwn dderbyn ceisiadau ar ffurf copi caled hefyd, er mai trwy e-bost fyddai orau. Os hoffech anfon cais drwy'r post, dyma'r cyfeiriad:

**UNIT(e)
G39
Oxford St
CAERDYDD
CF24 3DT**

DS Ni allwn ddychwelyd ceisiadau sy'n cael eu hanfon drwy'r post. Rhaid i'ch cais gyrraedd cyn y dyddiad cau, ac ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb dros bethau sy'n cyrraedd yn hwyr neu'n mynd ar goll yn y post. Croesawn geisiadau gan bobl waeth beth fo'u hanabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, oedran, hil, tras ethnig, cenedligrwydd (yn amodol ar drwydded i weithio lle bo'n ofynnol), aelodaeth a gweithgarwch undeb llafur, credoau gwleidyddol neu grefyddol. Cysylltwch â ni os ydych chi eisiau'r ffurflen hon mewn fformat gwahanol neu am wneud cais ar ffurf arall.

Dyddiad cau:

2200 (10 yr hwyr)

Dydd Gwener 10 Mawrth 2017

UNIT(e) 2017

AN INVITATION FOR SUBMISSIONS

UNIT(e). Every year we transform g39 into a space for production, research, critical discussions, film screenings, socials, lectures, and more. Taking its model from various independent art schools and summer schools, the gallery becomes a busy studio hub for the participating artists. Once a week we invite the public in to see artists' work in progress, the background noise, the often unseen studio activity of their practice. We also have a rich and varied programme of visiting artists and curators who deliver talks, workshops and one-to-one sessions with studio holders. The season concludes with an open studio event.

UNIT(e) has been a growing evolving project within our programme over the past three years. The UNIT(e) 2017 programme will be making a unique connection with the Wales In Venice invigilation team, international participants and a public spaces residency running in parallel.

This year, UNIT(e) is twice as long as previous years, and hopefully at least twice as warm, running through the summer months, from **21 April** until **9 September**.

We are inviting artists who wish to participate in UNIT(e) 2017 to submit an application. Artists at any career stage can apply. We welcome submissions from new graduates, established artists and anyone in between. We are looking for submissions that are open and exploratory, research ideas, or experimental studio ideas. We are looking for submissions that will make use of the critical dialogues and support from the studio community. We are looking for projects that wish to contribute to the critical dialogues in interesting ways. We are looking for submissions from artists taking a new direction in their work or starting a new collaboration.

UNIT(e) 2017 is significantly longer than the previous versions of the programme. We would like the majority of the selected artists to participate in the whole duration of the programme and we understand that this means working around other commitments. We will accept proposals for shorter lengths of time, particularly for artists not based in Cardiff. Please let us know in your proposal if you require a shorter project. We expect all projects to be at least one month in duration, in order to integrate into the studio community.

UNIT(e) studio holders can expect:

- A warm welcome and an introductory social meal.
- A dedicated studio space for research, development of ideas, and production of new work.
- Access to a range of AV equipment.
- Opportunity to present and discuss ideas in a friendly but critical environment.
- Access to tools and building kit.
- A programme of professional development including talks, workshops and artist-led one to one sessions.
- A network of peers and UNIT(e) alumni.
- Regular contact with g39 staff.
- Space to test ideas, conduct performances, film screenings, or other events.

Am I eligible?

- This opportunity is open to artists at any stage of their career.
- 8 places are set aside for artists from Wales, living in Wales or with a strong connection to Wales.

- 4 places are available for those from further afield.
- When selecting we will give preference to artists who have not taken up the UNIT(e) opportunity before.

How to apply

Please supply the following:

- A summary of how you would use the studio opportunity to develop new work, research new ideas, or take a new direction (no more than 300 words). Try to write in short clear sentences. Make it easy to read and easy to understand.
- A short artists statement (no more than 150 words). Please also make this simple and easy to read. It'll never contain your whole practice, so just give us a glimpse of your processes, common materials, and core interests. Please focus on your most recent work.
- A recent CV. If you're a recent graduate then don't worry if you've not had lots of exhibiting opportunities yet. The CV is the least important part of the application.
- Examples of your work which may include any of the following:
 - 10 images (no larger than 2MB per image), OR
 - Short clips from film work or sound work (no more than 5 mins in total) OR
 - Short excerpts of written work (up to 750 words)Please ensure you include titles, media and year of production for all works. This material is for our viewing only. Links to websites/ video hosting sites can also be accepted.

Send your submission to **curator@g39.org**.

We can accept hard copy applications but we prefer to receive applications by e-mail. If you wish to send the application by post send it to:

**UNIT(e)
G39
Oxford St
CARDIFF
CF24 3DT**

NB Material submitted by post cannot be returned. The application must arrive by the deadline and we can't take any responsibility for things lost in the post or that arrive late. We welcome applications from people irrespective of disability, gender, sexual orientation, marital status, family responsibility, age, race, ethnic origin, nationality (subject to issue of work permit where required), trade union membership and activity, political or religious beliefs. Please contact us if you want to receive this form/ apply in a different format.

The deadline.

**2200 hrs (10pm)
Friday 10th March, 2017**